Bringing out the best in each other

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng

Cyfnod Sylfaen (Derbyn i Flwyddyn 2) Cynorthwyydd Addysgu Canolfan Arbenigol

Graddfa 7 12 awr (dydd Iau a dydd Gwener)

Mae'r Llywodraethwyr am benodi Cynorthwyydd Addysgu Canolfan Arbenigol Cyfnod Sylfaen (Derbyn i Flwyddyn 2) brwdfrydig ac ysgogol i ymuno â'r staff ymroddedig yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng.

Cynigir y swydd uchod fel contract tymor penodol o flwyddyn yn y lle cyntaf yn y Ganolfan Arbenigol bresennol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (Derbyn i Flwyddyn 2). Byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio dan arweiniad Athro y Ganolfan Arbenigol i gefnogi disgyblion i oresgyn rhwystrau i ddysgu, naill ai yn y dosbarth neu drwy ymyriadau arbenigol.

Mae croeso i ymgeiswyr drafod y swydd gyda'r Pennaeth Mrs. Lorna Tuffin.
E-bost: head@welshpool.powys.sch.uk

Mae ein hysgol wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles pawb sydd yn ein gofal. Mae'r swydd hon yn amodol ar eirdaon boddhaol, DBS manwl a phob cliriad perthnasol arall.
Am ffurflenni cais a manylion swydd, ffoniwch 01597 826409; neu anfonwch e-bost recruitment@powys.gov.uk; neu gwnewch gais ar-lein yn www.powys.gov.uk dilynwch y ddolen 'Swyddi – chwilio ac ymgeisio'.

Dylid cyflwyno ffurflenni cais wedi'u cwblhau ar gyfer y swydd wag hon i Gyngor Sir Powys (gweler swydd wag ar Gyngor Sir Powys am fanylion).

Dyddiad cau: 02.12.26
Bydd y rhestr fer yn cael ei chreu ar: 03.12.26
Cynhelir cyfweliadau: 11.12.26

CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	**Cynorthwyydd Addysgu – Canolfan Arbenigol**
Rhif y Swydd:	**SWC0191**
Cod Gwerthuso Swyddi:	**S&I139**
Gwasanaeth:	**Ysgolion**
Lleoliad/Canolfan Waith:	**Ysgol Gynradd Y Trallwng**

(mae hon yn swydd gweithio o leoliad, ac felly bydd rhaid i'r sawl sydd yn y swydd weithio o leoliad penodol fel y nodir)

Graddfa:	**Graddfa 7** **Pwynt 15 i Bwynt 19** **£31,015 i £33,119 y flwyddyn ar gyfartaledd** **£16.07 i £17.16 yr awr**
Oriau'r contract:	**12 awr, Cyfnod penodol tan 31/08/2027**
Atebol i:	**Athro â Chyfrifoldeb dros y Ganolfan Arbenigol**
Cyfrifoldeb dros:	**Neb**

Crynodeb

Am y rôl:
Gweithio o dan oruchwyliaeth gyffredinol yr Athro â Chyfrifoldeb, gan fod yn gyfrifol dros gefnogi, o ddydd i ddydd, hyd at 12 dysgwr llawn amser ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol sy'n defnyddio'r Ganolfan Arbenigol.

Am ragor o wybodaeth am y swydd hon, gallwch gysylltu a'r Ysgol.

Bydd eich cyfrifoldebau'n cynnwys:

1. Ymgymryd â gwaith penodol sy'n cynnwys cynllunio, paratoi, darparu ac asesu gweithgareddau dysgu i ddisgyblion unigol.

2. Monitro a darparu er gofal cyffredinol, diogelwch a llesiant disgyblion gan gynnwys tasgau sy'n gysylltiedig â'u cynhwysiant cymdeithasol a darparu ar gyfer eu hanghenion gofal iechyd a chorfforol.

3. Bod yn aelod o dîm amlddisgyblaethol, gweithio o dan arweinyddiaeth yr Athro â Chyfrifoldeb.

4. Gweithio gyda'r athro â chyfrifoldeb i gynllunio gwersi, eu darparu, asesu a gwerthuso, addasu cynlluniau gwaith / gwersi fel sy'n briodol

5. Darparu rhaglenni addysgu / gweithgareddau dysgu y cytunwyd arnynt oddi fewn i system oruchwylio cytunedig, addasu gweithgareddau yn ôl ymateb/anghenion disgybl

6. Gweithio ochr yn ochr â staff arbenigol i ddarparu rhaglenni arbenigol a chefnogi disgyblion unigol

7. Cefnogi a defnyddio TGCh mewn gweithgareddau dysgu a datblygu hyfedredd ac annibyniaeth disgyblion wrth ei defnyddio

8. Defnyddio sgiliau arbenigol (cwricwlaidd / dysgu) / hyfforddiant / profiad i gefnogi disgyblion e.e. rhaglen Elklan ar gyfer lleferydd, iaith ac anawsterau cyfathrebu; rhaglen arwyddo Makaton

9. Yn dilyn hyfforddiant, cymryd cyfrifoldeb dros weinyddu meddyginiaeth adweithiol ac ataliol e.e. Epipen

10. Cefnogi athrawon mewn ysgolion wrth iddynt holi disgyblion rhwng y Ganolfan a'r ysgol brif ffrwd

11. Defnyddio amrywiaeth o gymhorthion arbenigol, adnoddau ac offer sy'n ddibynnol ar anghenion adnabod disgyblion unigol e.e. hoist, cadair olwyn, cymhorthion synhwyraidd / cyfathrebu, dillad arbenigol

12. Rhoi cyngor am leoli'n briodol a defnyddio cymhorthion arbenigol / adnoddau arbenigol / offer arbenigol yn y brif ffrwd

13. Gweithio gyda phlant ag anghenion arbenigol cymhleth, monitro a darparu ar gyfer eu gofal cyffredinol, eu diogelwch a'u llesiant gan gynnwys tasgau sy'n gysylltiedig â'u cynhwysiant cymdeithasol a darparu ar gyfer eu hanghenion personol, corfforol ac iechyd

14. Sefydlu cydberthnasau adeiladol a chyfathrebu ag asiantaethau / gweithwyr proffesiynol eraill i gefnogi cyflawniad a chynnydd ddisgyblion mewn cysylltiad â'r athro â chyfrifoldeb

15. Darparu adborth cywir, asesiad ac adroddiadau fel sy'n ofynnol gan yr athro â chyfrifoldeb am gyflawniad, cynnydd disgybl, a materion eraill gan sicrhau argaeledd tystiolaeth briodol

16. Cynorthwyo gyda datblygu, adolygu a gweithredu Darpariaeth Dysgu Ychwanegol a Chynlluniau Datblygu Unigol / Cynlluniau Chwarae Unigol / Cynlluniau Gofal Iechyd

17. Cysylltu'n sensitif ac yn effeithiol â rhieni/ gofalwyr yn ôl yr hyn a gytunwyd gyda'r athro â chyfrifoldeb oddi fewn i rôl/i gyfrifoldeb a chyfranogi mewn sesiynau/ cyfarfodydd adborth gyda rhieni / gofalwyr yn ystod y diwrnod ysgol

18. Cyfrannu at ddatblygu polisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i ddiogelu ac amddiffyn plant, iechyd a diogelwch, cyfrinachedd a diogelu data a chydymffurfio â hwy

19. O dan oruchwyliaeth yr athro â chyfrifoldeb, arwain a chynghori lleoliadau profiad gwaith, athrawon sy'n hyfforddi, nyrsys sy'n fyfyrwyr, myfyrwyr gofal iechyd a chymdeithasol ac ati

20. Darparu gweithgareddau priodol y tu allan i'r ysgol yn unol â pholisi'r ysgol

21. Cynorthwyo â goruchwylio disgyblion ar wibdeithiau oddi ar y lleoliad gan gynnwys ymweliadau preswyl, o dan oruchwyliaeth gyffredinol yr athro â chyfrifoldeb

22. Darparu gwasanaeth cyflenwi, gyda chymorth cynorthwyydd addysgu ychwanegol, yn sgil absenoldeb athro oherwydd cynllunio, paratoi ac asesu (CPA), gwaith allgymorth, cyfarfodydd diogelu plant, cynadleddau achos ac ati

23. Ymgymryd â gwaith allgymorth gyda disgyblion unigol mewn ysgolion cymdogol o dan oruchwyliaeth yr athro â chyfrifoldeb a'r pennaeth

Costau teithiau:

Caiff costau teithio eu talu am y milltiroedd a deithiwyd yn ystod ymweliadau / cefnogaeth allgymorth, ar gyfarwyddyd yr Athro â Chyfrifoldeb dros y Ganolfan Arbenigol, ar sail Cyfradd Milltiroedd Defnyddiwr Achlysurol y Cyngor Sir fel y caiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd.

Gofynion Gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

Mae angen Gwiriad Manylach y DBS i'r swydd hon. Mae'r swydd hon yn cael ei chyfri'n weithgaredd a reoleiddir dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, a bydd yn destun gwirio rhestr o'r bobl hynny sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant.

Gofynion Iechyd a Diogelwch

Yn y swydd hon byddai disgwyl i chi gydweithio gyda'ch cyflogwr a dilyn cyngor a chyfarwyddiadau iechyd a diogelwch.

Datganiad Cydraddoldebau:

Yn y swydd hon byddai'n ofynnol i chi ddilyn egwyddorion cyfle cyfartal a'u hymarfer yn ôl yr hyn a nodwyd ym Mholisi Cyfleoedd Cyfartal yr Ysgol.

Diogelu Data a Diogelu Gwybodaeth:

Yn y swydd hon byddai'n ofynnol i chi sicrhau bod protocolau Diogelu Data a Diogelu Gwybodaeth yn cael eu dilyn yn drylwyr.

Gofynion y Gymraeg

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

SYLWCH;

Er y manylion sydd yn y swydd ddisgrifiad, bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd wneud unrhyw waith ar gais y Rheolwr o dro i dro, hyd at neu ar lefel sy'n cyfateb â 'Phrif Gyfrifoldebau'r Swydd.'

Y PERSON

Ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'r rôl? Os felly, dangoswch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf canlyniol yn eich cais.

Profiad

Hanfodol

- Profiad blaenorol o weithio fel Cynorthwyydd addysgu/Cynorthwyydd addysgu (Arbennig) oddi fewn i leoliad ysgol
- Profiad o weithio â disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a/neu weithio mewn amgylchedd arbenigol
- Profiad o gysylltu ag athrawon, rhieni/gofalwyr, asiantaethau allanol

Dymunol

- Profiad o ganu neu ddulliau amgen o gyfathrebu

Gwybodaeth

Hanfodol

- Hyfforddiant mewn, neu brofiad o Raglenni Ymyrraeth ADY
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o ADY
- Gwybodaeth am strategaethau i wella deilliannau i ddysgwyr
- Dealltwriaeth o sut mae asesiad yn gallu llywio dysgu a gosod targedau dysgu
- Gwybodaeth a dealltwriaeth am ddarpariaeth dysgu ychwanegol a chynlluniau datblygu unigol
- Dealltwriaeth dda a phrofiad o ddefnyddio TGCh fel arf dysgu a gallu defnyddio hyn yn yr ystafell ddosbarth
- Gwybodaeth ymarferol a gweithdrefnol am amrywiaeth o bolisïau'r ysgol a sut maen nhw'n berthnasol i fframweithiau / polisïau cenedlaethol ar gyfer dysgo
- Gwybodaeth weithiol am Gwricwlwm i Gymru a chynlluniau gwersi a ddefnyddir mewn ysgolion prif ffrwd
- Dealltwriaeth o faterion diogelu

Cofrestriadau, Cymwysterau a Hyfforddiant

Hanfodol

- Addysgu neu Ofal Plant perthnasol NNEB/BTEC/NVQ3 (neu gyfwerth) – cymhwyster neu dystiolaeth o wybodaeth a phrofiad mewn disgyblaeth berthnasol
- TGAU Saesneg, Cymraeg (i swyddi cyfrwng Cymraeg) a Mathemateg A*-C neu gyfwerth

Dymunol

- Cymhwyster cydnabyddedig mewn Therapi Ymddygiad Gwybyddol neu ADY

Rhinweddau Personal

Hanfodol

- Brwdfrydig ynghylch gweithio gyda phlant
- Hyblyg a pharod i ymgymryd ag amrywiaeth eang o gyfrifoldebau
- Integriti personol i wneud y defnydd gorau o'i sgiliau, adnoddau a galluoedd
- Gallu gweithio heb oruchwyliaeth agos
- Gallu cymryd y cam cyntaf a gweithredu'n annibynnol
- Gonest, dibynadwy a di-ragfarn
- Synnwyr digrifwch da

Sgiliau

Hanfodol

- Sgiliau gofal lefel uchel
- Sgiliau ardderchog o ran cyfathrebu a gwrando
- Gallu trefnu ac arwain gweithgareddau i rieni/gofalwyr a/neu i blant
- Gallu gweithredu rhaglenni arbenigol o gefnogaeth
- Gallu cefnogi dysgwyr ag ymddygiad heriol
- Gallu defnyddio amrywiaeth o strategaethau a dulliau cefnogi i helpu dysgwyr unigol
- Gallu gweithio fel rhan o dîm aml-ddisgyblaethol

Gofynion Eraill

Hanfodol

- Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg (Ysgol Cyfrwng Cymraeg)
- Meddu ar drwydded yrru lawn a mynediad at gerbyd
- Gwybodaeth weithiol am gymorth cyntaf
- Ymrwymiad i ymgymryd â hyfforddiant, fel sy'n briodol

Dymunol

- Cymhwyster cydnabyddedig mewn cymorth cyntaf

Rheolwr recriwtio: Sarah Court a Jennifer Oglethorpe
Tachwedd 2022

Ein gwerthoedd:

Proffesiynol
Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb ac integriti ym mha bynnag rôl yr ydym yn ei chwarae yn y cyngor

Cadarnhaol
Mae ein hagwedd yn gadarnhaol ym mhopeth a wnawn

Blaengar
Mae ein hymagwedd yn rhagweithiol a chyfrifol wrth gynllunio am y dyfodol

Agored
Rydym yn hysbysu'n gilydd gan rannu gwybodaeth ac ymddwyn â gonestrwydd ac integriti

Cydweithiol
Rydym ni'n gweithio'n adeiladol ac â pharodrwydd ar fentrau ar y cyd

Sut i ymgeisio

Bydd angen i chi gwblhau'r cais ar-lein, mae'n syml, dilynwch y broses gam wrth gam.

Gair i gall:

- Darllenwch y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person yn ofalus a'r dystiolaeth eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn eich datganiad cefnogi.
- Gwerthwch eich hun a rhowch enghreifftiau ble y bo'n bosibl
- Rhestrwch y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r swydd, yn ôl y manylion ym manyleb y person.
- Sicrhewch fod un o'ch canolwyr o'ch cyflogwr mwyaf diweddar neu os mai hon yw eich swydd gyntaf beth am ofyn i athro ysgol neu diwtor, ond sicrhewch eich bod yn adnabod y canolwr ar lefel broffesiynol.
- Byddwch yn onest a dywedwch wrthym am unrhyw fylchau yn hanes eich cyflogaeth
- Cwblhewch y cais yn gyflawn

Camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 02/12/2026.
Ar ôl cyflwyno byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi ein bod ni wedi derbyn eich cais.
Byddwn yn creu rhestr fer o'r ceisiadau ar 03/12/2026. Byddwn yn anfon e-bost atoch os ydych chi'n llwyddiannus ai peidio. Felly, cadwch lygad ar eich mewnflwch!

Bydd y cyfweliadau'n digwydd ar 11/12/2026.

Dymunwn bob hwyl i chi gyda'ch cais.